

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 152 Rhif 15 Ebrill 11, 2019 50c.



YR HAWL I FOD YN DRIST YNG NGAEAF EIN CYFLWR

Mae gennym hawl i fod yn drist, a hawl i fethu – dyna oedd neges heriol y Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, i'r gynulleidfa sylweddol yng Nghwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yng nghapel Peniel ger Caerfyrddin ar 14 Mawrth.



'Mae'r wasgfa arnom i fod yn llwyddiannus yn ddirugaredd,' meddai. 'Os nad y'ch chi'n llwyddo mi ydych chi'n fethiant, yn amherffaith. Mae gwasgfa arnom i fod yn bwerus, i fod yn iawn

drwy'r amser, i fwydo'r ego, y Fi fawr.' Fel Cristnogion rhaid i ni ddysgu i adael pethau hynny i fynd, meddai. Cyfeiriodd at Jeremeia, y proffwyd ystyriwyd yn fethiant yn ei ddydd, gan ychwanegu bod gwirioneddol angen 'diwinyddiaeth methiant' i'n galluogi ni i ddelio â'n cyflwr yn yr oes hon. Dyfynnodd bennill o emyn J. J. Williams:

*Y ddawn a roddaist ti
i'th Eglwys pan oedd wan
a wnaeth ei gweiniaid hi
yn wrol ar dy ran.*

Soniodd hefyd am gyfnod yr Apostol Paul yn Arabia ar ôl ei droedigaeth ar heol

Damascus. 'Bu yno am dair blynedd, ond wnaeth e ddim sefydlu'r un eglwys,' meddai Dyfrig Rees. 'Roedd e yn yr un sefyllfa a ni. Beth wnaeth Paul oedd dysgu crefft fel gwneuthurwr pebyll, ac fe fuodd e'n gweithio wrth genhadu.' Dyfynnodd o emyn y Parchg T. Elfyn Jones, un o gynweinidogion Peniel:

*O doed dy deyrnas drwy ein gwaith
a'n gweddi beunydd ar y daith.*

Wrth gyfeirio at ei swydd ei hun, dywedodd y gallai fod yn waith anodd gan ei fod yn gwneud dymuniad rhywun arall. Mae'n gorfod sicrhau bod ewyllys yr Undeb yn cael ei weithredu, p'un a'i yw'n cytuno neu beidio.

Ni yw'r Undeb

Wrth droi at yr Undeb, dywedodd Dyfrig Rees: 'Chi a fi yw'r Undeb. Ni yw'r Undeb, ac mae'n bwysig i ni gofio hynny mewn oes pan y'n ni'n ymbalfalu am y ffordd ymlaen. Un ysgafn yw'n strwythur ni, ac mae wedi gwasanaethu ni'n dda ers ffurfio'r Undeb yn 1871. Mae modd i eglwys fynd â mater i'r Cwrdd Chwarter, gan ofyn iddo gael ei godi gan gynrychiolwyr y Cyfundeb yng Nghyngor yr Undeb, ac yna ymlaen i'r Cyfarfodydd Blyneddol. Mae modd i'ch llais chi gael ei glywed.' Fel Annibynwyr, fe ddylai pethau godi o'r gwaelod, meddai.

Sychu cof cenedl

Soniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol am bwysigrwydd Apêl Madagascar a chyfraniad y cenhadon at hunaniaeth y genedl yno. Ar ôl coloneiddio'r wlad, fe wnaeth Ffrainc sychu cof y genedl a rheibio'i adnoddau naturiol, meddai. Mae'r dylanwad a'r rheibio yna'n parhau hyd heddiw, ond fe wnaeth y cenhadon o Gymru helpu rhoi hunaniaeth i bobl Madagascar trwy ddarparu'r Beibl iddynt yn eu hiaith eu hunain.

Galwad Iesu yn ein gaeaf

Wrth ddod 'nôl at ein cyflwr fel Cristnogion, dywedodd pa mor rhyfeddol yw hi bod pobl yn dal i fod yn ffyddlon, a hynny trwy eu dagrau am iddynt fod mewn amgylchiadau lle rown nhw'n teimlo bod eu ffydd, neu Duw, wedi'u gadael nhw lawr. Wrth gloi, fe wnaeth y Parchg Dyfrig Rees gyfeirio at 'the inexplicable winter of God's silence.' Mae hi'n anodd, meddai, mae 'na fethu. Ond mae Iesu'n parhau i'n galw ni 'nôl.



Rhan o'r gynulleidfa sylweddol ym Mheniel, gyda'r Parchg Meirion Sewell, Cadeirydd y Cyfundeb, yn Llywyddu.

Gloddesta



Daeth Eglwysi Gofalaeth y Parchedig Carys Ann at ei gilydd er mwyn casglu arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Paratowyd cinio blasus ar ddydd Sul yn Neuadd Coedybryn, gwnaethpwyd elw o £350.

Myfyrdodau'r Grawys

Ar wefan Undeb yr Annibynwyr sef www.annibynwyr.org y mae cyfres o fyfyrdodau wedi eu paratoi gan y Parch Robin Samuel. Y maent i'w cael yn rhad ac am ddim ac yn addas ar gyfer myfyrdod bersonnol neu gyda chriw bach o'ch heglwys. Beth am fynd i'r wefan i'w gweld? Y mae'r rhestr myfyrdodau fel â ganlyn. 1 'Iesu a'r Anialwch' 2 'Israel a'r Anialwch' 3 'Y Teithiwr a'r Anialwch' 4 'Yr Alltud a'r Anialwch' 5 'Y Proffwyd a'r Anialwch'. Er mwyn cael blas o'u cynnwys dyma'r ail fyfyrdod.

Israel a'r anialwch

Yr hyn a ddaw'n amlwg o ddarllen y storiâu am yr anialwch yn y Beibl yw bod pobl yn mynd yno am bob math o resymau. Aeth Ioan Fedyddiwr i'r anialwch er mwyn galw pobl i ddod ato i baratoi ar gyfer dyfodiad hirddisgwyliedig yr Arglwydd. Aeth Iesu yno cyn dechrau ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Mae rhai'n mynd yno am nad oes dewis arall, rhai'n mynd i farw ac eraill er mwyn gorffwys a chryfhau. Yn ein stori heddiw, dihangfa rhag gormes a chaethiwd yw'r anialwch. Man sy'n cynnig rhyddid.

y byd ac ar hyd y canrifoedd, wedi troi ati am ysbrydoliaeth a gobaith. Ond mae'n ymddangos mai'r rhai a fu'n rhan o'r stori wreiddiol yw'r rhai a ysbrydolwyd lleiaf ganddi!

Prin wedi gadael yr Aifft a chroesi'r Môr Coch ac maen nhw'n dechrau cwyno – 'Ble mae'r dŵr? Ble mae'r bwyd? Roedd yn well arnom yn yr Aifft! Roedden ni'n saffach yn ein caethiwd!' O leiaf yn yr Aifft roedd ganddyn nhw fwyd i'w fwyta, dŵr i'w yfed a tho uwch eu pennau, hyd yn oed os oedd eu meistri yn eu curo nhw. Mae'n ymddangos bod rhyddid yr anialwch yn ormod iddyn nhw, yn rhy arswydus i'w dderbyn. Wrth gwrs roedd yr Israeliaid yn iawn i ofni'r anialwch. Fel rydym wedi sylwi'n barod roedd yn fawr ac yn beryglus. Roedd dŵr a bwyd yn brin a gallai pobl farw'n rhywydd o newyn a syched. Mae'n debyg mai un o'r llysenwau a rhoddwyd ar y Sahel, y diffeithdir sy'n ymestyn 600 milltir ar draws cyfandir Affrica o Fôr yr Iwerydd i'r Môr Coch oedd 'mynwent y cenhadon', am fod cymaint ohonynt wedi marw yno. Nid ar chwarae bach mae mynd mewn i'r anialwch. Ond roedd yr Israeliaid wedi anghofio un peth pwysig, aethon nhw ddim i mewn i'r anialwch ar eu pen eu hunain. Yn gwmni iddyn nhw oedd y Duw a'u rhyddhaodd o'u caethiwd. Roedd ef wedi dangos y ffordd ac wedi darparu dŵr a manna pan oedden nhw fwyaf eu hangen.

Ymddiriedaeth

Un peth yw rhyddhau pobl yn gorfforol, proses tipyn mwy cymhleth yw rhyddhau eu meddyliau, ac fe gymerodd amser hir i'r Israeliaid profi'r rhyddid meddwl yna. Y problem fawr gyda rhyddid yw'r elfen o ansicrwydd a'r anhysbys sy'n dod gydag ef, ac mae rhyddid yn gallu bod yn frwydychus. Fe gymerodd dipyn o amser i'r Israeliaid, mwy hyd yn oed na'r 40 mlynedd buon nhw'n crwydro yn yr anialwch, i sylweddoli mae'r unig ffordd i fwynhau rhyddid yr anialwch oedd ymddiried yn Nuw a chydgerdded gydag ef. Fel y gwelwyd eisoes mae'r anialwch yn y Beibl yn fan sy'n cynnig rhyddid a gobaith ar yr un llaw, ond y mae hefyd yn llawn perygl ac anobaith. Y gwahaniaeth rhwng y ddau brofiad yw'r ymwybyddiaeth o bresenoldeb Duw. Dim ond wrth ymddiried yn Nuw gall yr anialwch ddod yn fan o ryddid gorfoloeddus yn hytrach na pherygl arswydus. Dydi'r anialwch ddim yn newid, ond gall gwybod am bresenoldeb Duw newid ein hagwedd tuag ato.

Agor i'w bresenoldeb

Mae'r Grawys yn ein gwahodd ni i gamu i mewn i'r anialwch, ond i wneud hynny

Grawys 2019
IESU A'R ANIALWCH

MARC 1: 1-14
Robin Samuel

Mae'n rhyddid gwelid sut mae'r anialwch yn cael ei amlwg yn rhyngwmp arddorion y Beibl. Wrth gwrs roedd yn holl bresenol ac yn fwythad cyson... ar anialwch mae'n peryglus... medd auster Llyth Deuteronomium. A gellir ffrwyd, fel y gwyd unffwyd un sydd wedi lletthio swyddoedd... y gwrs lletthio y llywodraethedd y llywodraethedd hysg yddi bron yn amhosibl cynnal tyfiant, pricer olar a bwyd. Rhywbeth estron anghysurus, digroes, anghyffwrdd, dilywyd ac unig ac os buoch chi ynddo arised mae'n brofiad sy'n aros. Mae'r anialwch fel lle ac fel llysenwau yn meddwl mwy Beibl. Ond i'r anialwch y calafod Adae ac Efa fynd a'r Adda Edean? Ond i'r anialwch yr alltudwyd Cain wedi i'w lletthio'r ddaeth o'r frawd Abel eiddo i'r amlwg? Calafod Hagar ac Ishmael eu gwrs yno. Bu'r genedl yn crwydro ynddo am oedogain mlynedd, a charroffodd yn eiddo'r ddaeth aethon drwy'r anialwch unwaith os i'w caethiwd ym Mabilon. Ond mae yna wedd allai hefyd i'r anialwch yn ysgriafnadau'r Beibl. Dro ar ôl i'ro fe gyllyn am bobl yn cyfarfod Duw yn yr anialwch, gan ddat i'w adnabod mewn ffordd newydd. Mae'r anialwch yn cynnig llysoes ac amodffwrdd mag gelyson a gormes. Mae'n fan i adnewyddu a chryfhau. Trwy'r anialwch mae pobl Duw yn cael rhyddid i'w llyd yr addewid, ac yn yr anialwch y mae Duw yn addo dychwelyd at ei bobl. Mae'r anialwch yn lleam perygl, ond y mae llywodraethedd yno hefyd.

MEDDWL
Un person i ddarllen y darn o Marc yn uchel ac yn araf. Os yw amser yn caniatáu, darllenwch y darn eto mewn cyfithriad gwahanol.

1. Oes rhywbeth o'r darlenniad wedi gwneud argraff neu dynnu sylw aelodau'r grŵp?
2. Oes rhywbeth o'r darlenniad sy'n anodd ei ddeall neu sy'n codi cwestiwn ymhlith aelodau'r grŵp?
3. Oes rhywbeth o'r darlenniad gellid ei gymhysgo i sefyllfa'r eglwys leol?

Israel a'r Anialwch
GOBAITH

Mae'r stori am yr Israeliaid yn dianc o gaethiwsiaeth yn yr Aifft yn un o storiâu newydd pwerus yr Hen Destament, ac yn allweddol i ddeall ymwneud Duw â dynoliaeth. Stori am bobl yn cael eu rhyddhau o'rmes. Stori sy'n sôn am ffydd a bywyd newydd, a stori am y Duw sy'n mynnu gollwng yn rhydd pobl sydd mewn caethiwd. Yn wir, mae'r stori hon mor bwerus fel bod pobl o dan ormes, ar draws

Meddwl

Un person i ddarllen yr adnabod o'r Ewangelio yn uchel ac yn araf. Os yw amser yn caniatáu, darllenwch y darn eto mewn cyfithriad gwahanol.

1. Oes rhywbeth o'r darlenniad wedi gwneud argraff neu dynnu sylw aelodau'r grŵp?
2. Oes rhywbeth o'r darlenniad sy'n anodd ei ddeall neu sy'n codi cwestiwn ymhlith aelodau'r grŵp?
3. Oes rhywbeth o'r darlenniad gellid ei gymhysgo i sefyllfa'r eglwys leol?

Y GRAWYS 2019

Gobaith

Mae'r stori am yr Israeliaid yn dianc o gaethiwsiaeth yn yr Aifft yn un o storiâu mwyaf pwerus yr Hen Destament, ac yn allweddol i ddeall ymwneud Duw â dynoliaeth. Stori am bobl yn cael eu rhyddhau o'rmes. Stori sy'n sôn am ffydd a bywyd newydd, a stori am y Duw sy'n mynnu gollwng yn rhydd pobl sydd mewn caethiwd. Yn wir, mae'r stori hon mor bwerus fel bod pobl o dan ormes, ar draws

gyda Iesu. Mae'n cynnig y cyfle i ni 'dreulio amser' gydag Iesu. Rhaid gweithio'n galed i ddarganfod ffyrdd o'i wneud yng nghanol prysurdeb a llawnder y bywyd cyfoes. Fe all fod yn wahanol i bob yr un ohonom, ac fe all gymryd oes o Rawysau i ddarganfod beth mae 'treulio amser gydag Iesu' yn ei olygu'n ymarferol i fi. Un peth sy'n sicr, rhaid ceisio osgoi meddwl amdano yn nhermau 'tasgau' i'w cyflawni. Os wna'i weddio'n rheolaidd, os af i'r oedfa bob Sul, os ydw i'n darllen y Beibl yn ddyddiol, os wna'i i fyw yn dda – mae'n gallu bod yn rhywydd meddwl fy mod i wedi gwneud yr hyn sydd ei angen. Ond dydi gwneud y pethau hynny ddim o reidrwydd yn golygu treulio amser gydag Iesu. Mae'n fwy na jyst ticio bocsys, mae'n golygu bod yn agored i'w bresenoldeb, dod i'w adnabod a'i ddeall a dysgu gweld y byd a bywyd drwy ei lygaid ef.

Penderfyniadau Cyfarfodydd Blynyddol 2019

Os oes cyfundebau, eglwysi neu aelodau personol o'r Undeb sy'n dymuno cyflwyno penderfyniad i Gynhadledd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhyd-y-main ym mis Mehefin, mae gofyn i gopi o'r penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 26 Ebrill 2019, os gwelwch yn dda.

Dyfrig Rees
Ysgrifennydd Cyffredinol

Barn Annibynnol

Y Cythraul Canu

Mae'n wanwyn bobl! Ac mae'n dymor y cystadlu eisteddfodol, ac mae'r holl eisteddfodau cylch a sir yn carlamu mewn i'r genedlaethol ar ras. Ar hyd a lled y wlad, mae plantos o bob oed yn ymarfer eu sanau bychain i fwrdd (?) i geisio bod y gorau yn eu dewis gystadleuaeth, o ddawnsio i lefaru a chanu yng nghwmni athrawon dygn ac egniol. Sioned Grug *eat your heart out!* Gwyyyych!

Y mae'r eisteddfod yn ffenomen anhygoel, yntydi? Mae'n ffordd o feithrin talentau yn ifanc ac yn gyfle i roi llwyfan i blant a'u mynegiant creadigol. Pan welwn ni raglenni fel *Britain's Got Talent*, neu *X Factor* ar deledu Lloegeraidd, fe ddywedwn ni Gymry ymysg ein gilydd, 'Wel, onid ydym ni'n gwneud hyn ers ache? Yr eisteddfod yw ein *X Factor* ni!'

Gwirioni

Nid pawb sydd eisiau cystadlu wrth gwrs, ac mae hynny'n hollol iawn. Mi ddywedodd rhywun wrtha i mewn sgwrs unwaith pan oeddem ni'n rhannu doethinebau am fywyd, 'Ti'n gwbod, wrth i ti fyw dy fywyd, mae yna rai pethau nad ydyn nhw'n gymaint o *big deal* ag yr oeddet yn meddwl eu bod nhw. Dwi wedi sylweddoli un peth, os nad ydy dy blant di'n steddftotwyr, bod hynny'n olrêit hefyd.' Mi ddywedwn i amen i hynny, oherwydd nid pawb sy'n gwirioni 'run fath, diolch byth.



O wefan yr Urdd

Cymryd rhan

Ond 'nôl â ni i'r steddffod. Caewch y drysau yn y cefn os gwelwch yn dda! Pob chwarae teg os gwelwch yn dda!

Nawr, fy nghwestiwn i yw, beth am y rhai hynny sydd *am* gymryd rhan ond nad ydynt yn cael gwneud am nad ydyn nhw'n cael eu hystyried yn 'ddigon da'? Hynny yw, y byddan nhw'n rhoi siawns unrhyw gôr neu barti i ennill yn y fantol. Ces sgwrs yn lled ddiweddar am yr union bwnc hwn a mynegais i'r farn ei bod hi'n drueni nad oedd pob plentyn, o oed cynradd yn enwedig, sydd am wneud, yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn côr neu barti eisteddfodol, ces yr ateb canlynol; 'Ddylen nhw ddim ca'l cystadlu achos ma'n nhw'n sbwylo fe i bawb.' Ces fy llorio'n llwyr gan y frawddeg hon, roedd yn awgrymu bod plant yn cael eu cadw rhag cymryd rhan mewn cystadleuaeth am fod yr awch i ennill yn drech na'r ddyletswydd i feithrin ac i annog ein plant, ein dyfodol, ein cenedl, i fod y gorau y gallan nhw fod ac i gyrraedd at eu potensial. A mwy na hynny, bod y plant hyn, nad ydyn nhw'n ddigon da, yn moelyd y cyfle'r lleill i gyrraedd at

anrhydedd, o fwriad. Ac wrth gwrs, mae cyfle i'r rhai sydd am wneud hynny, gystadlu'n unigol hefyd, gan hawlio llwyddiant ar eu cownt hwy eu hunain yn llwyr a dangos eu talentau unigol yn llawn.

Llwyfan llydan

Mi ydw i'n llawn ddeall beth yw nodau ac amcanion cystadlu eisteddfodol – yn wir, mi ydw i fy hun wedi elwa'n fawr iawn ar hynny. Gadewch i fi ddweud yn eglur, dwi'n CARU'r eisteddfod (yn rhai mawr a bach) yn angerddol, nid y sefydliad ei hun yw pwynt yr erthygl hon, hir y parhaed hi, ond yn hytrach y ffaith bod yr egwyddor o gystadleuaeth yn medru dallu rhai rhag gweld bod yr eisteddfod yn llwyfan (llythrennol a ffigurol) ardderchog i HOLL blant Cymru, os y dymunant hynny.

Rydwi i wedi cynnal gweithdai gyda phlant mewn ysgolion drwy Gymru fel bardd ar ymweliad er mwyn gweithio gyda nhw ar greu barddoniaeth dros y blynyddoedd ac rydw i wedi dysgu disgwyl yr annisgwyl. Yn aml iawn, fe ddaw fflach creadigrwydd gan blant na fyddai'r athrawon yn meddwl y bydden nhw'n medru gwneud. Yn yr un modd, wyddon ni ddim beth yw potensial ein plant ni, ond mae pawb yn haeddu cael cyfle, os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Meimio

Faint ohonom ni oedolion sy'n cofio cael ein siarsio i agor ein cegau'n unig er mwyn esgu canu rhag bod ein canu ni'n tarfu ar weddill y côr? Dwi wedi clywed nifer o straeon diflas fel hyn a dwi'n cywilyddio fod oedolion wedi rhoi profiad felly i blant, ac yn dal i wneud. Onid yw arweinydd gwerth ei halen yn ceisio cael y gorau allan o bob plentyn, ac yn hynny o beth, mae'r gorau hwnnw yn beth ardderchog felly – ennill neu beidio? Mae pobl yn rhy aml yn defnyddio'r frawddeg; 'Nid yr ennill sy'n bwysig, ond y cymryd rhan.' Ond mae'n ymddangos i mi nad oes digon o bobl yn credu ynddi, go iawn.

Llais i bawb

A beth am fod â llais fel brân? Mae gan bob brân ei gân ac mae brain yn haeddu canu hefyd, cofiwch. Alla i ddim llai na meddwl nad yw ymddygiad fel hyn yn beth Cristnogol iawn, wedi'r cyfan, dyw lesu Grist ddim yn gwrthod neb, byth. Dyw Duw ddim yn gwrthod neb. Neb. Os ydyn ni'n ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist, wel dydy sentiment o'r fath ddim yn gymharus, nac ydy? A pheth bynnag, beth yw'r ots os nad ydych chi'n ennill? Fe nethoch chi'ch gorau, ac mae hynny'n ddigon da. Fe roesoch siot arni, a chael hwyl yn gwneud, os nad yw hynny'n rhan werthfawr o ysgol brofiad gyfoethog bywyd, beth sydd? *Dyna* ydy'r gwir yn erbyn y byd.

Gan obeithio na chaiff neb gam, yntife. Hwyl i chi yn yr wyl!

Elinor Wyn Reynolds

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Ysgwn i pwy?

A fyddai rhywun o ddarlennwyr *Y Tyst* yn gallu ein cynorthwyo os gwelwch yn dda?

Mae yna lyfr ar hanes y Tabernacl, Hendy-gwyn yn cael ei ysgrifennu gan Denley Owen, Llanymddyfri

a fydd gobeithio yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Rydym wrthi'n enwi'r bobl yn y lluniau ac yn cael llawer o hwyl wrth wneud hynny. Ond rydym yn cael tipyn o drafferth gyda'r llun hwn. Tynnwyd y llun yn 1950 yng Nghwrdd Sefydlu Huw Francis yn y Tabernacl ac nid oes neb yn gwybod

enwau dau o'r bobl yn y llun. Y ddau nad ydym yn gallu eu henwi yw y ddau ar ochr y llun yn y rhes flaen – un ar yr ochr dde a'r llall ar y chwith.

Ymhlith y gweinidogion a gymerodd rhan y diwrnod hwnnw roedd Idris Morgan, Moreia, Blaenwaun, W. B. Griffith, Priordy, Caerfyrddin a D. J.

Davies, Capel Als, Llanelli. Mae'n bosibl mai dau o'r tri yma yw'r ddau berson nad ydym yn gallu eu henwi. Os oes rhywun a all enwi'r ddau yma a fyddent yn fodlon fy ffonio ar 01269 851 655 cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda?

Dyma, er diddordeb, enwau'r gweddill sydd yn y llun.



Rhes gefn (o'r dde): Cadwaladr Williams (Henllan) Morgan Jones (Ysg. Y Tabernacl), Edgar Phillips a William Davies (Llanboidy).

Rhes flaen (o'r dde): ?, Gwilym Higgs, Huw Francis, Joseph James, ?

Diolch yn fawr iawn,
Guto Llywelyn

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

CAWL Â CHÂN er mwyn BYWYD I BAWB

Noson o Gawl â Chân oedd y pedwerydd digwyddiad i'w gynnal yn y Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr i gefnogi Apêl Bywyd i Bawb. Bu grŵp elusennau'r eglwys yn trefnu ers rhai wythnosau i sicrhau o leiaf un digwyddiad y mis o hyn hyd Fehefin er mwyn cyrraedd targed yr eglwys o £10,000 dros gyfnod yr apêl.

Eisoes cafwyd Bore Coffi a Ffair Nadolig dan nawdd grŵp 'Pwyth a



Phaned' yr eglwys. Trefnodd Dyfrig a Mandy Rees 'Ginio Cynnil' ar Sul cyntaf yr Adfent, a chrosawyd ni i Fore Coffi yng nghartref Robin a Janet Samuel ganol mis Ionawr.

Cymaint yr ymateb i'r 'Cawl â Chân' fel y bu'n rhaid cynnal y noson yn y capel gan fod y Neuadd yn rhy fach!. Roedd trefniadau'r noson yng ngofal Owen a Freda Griffiths a Hywel a Dilys Richards. Y dynion a baratodd y cawl - a hynny heb wneud cawl o bethau! - y merched fu'n gyfrifol am y pice ar y ma'n a'r paneidiau. Rhai o fechgyn ifanc yr eglwys oedd y gweinyddion a chafwyd adloniant gyda datganiadau telyn, piano a fflwt yn ogystal ag unawd werin, deuawd cerdd dant ac *ensemble* lleisiol.

Noson hynod o gyfoethog ei bendith fu hi, ac yn un a sicrhodd gyfraniad sylweddol i'r apêl gan godi cyfanswm yr eglwys hyd yma yn £2,291. Trefnwyd yngerdd gan Gôr Caerdydd, Swper Saffari a noson o fwyd Tseineiaidd i ddigwydd maes o law ac mae yna edrych ymlaen at y cyfleodd i gefnogi'r apêl yn ogystal â chwmnïa a chymdeithasu.



O'r chwith i'r dde, Gruffydd, Ceri, Rhodri, Luca, Rhys, Daniel a Cai

Hywel Wyn Richards

CYSTADLEUAETH CWPAN DENMAN 2019

Cywaith Gweledol gan Ysgol Sul

poster, ffotograff, llun neu waith celf arall - dim mwy na 4x3 troedfedd ar y thema

Byd Natur Madagascar

Y Cywaith i gyrraedd Tŷ John Penri neu Rydymain, trwy drefniant gydag Iwan Llewelyn Jones: 07530 974644
IwanLew@aol.com erbyn 15 Mai
 os gwelwch yn dda.



TLYSAU CYFUNDEB LERPŴL Cystadlaethau siarad cyhoeddus

Blynyddoedd ysgol 7-9 (unigol)

Darllen llythyr at ffrind ym Madagascar

Blynyddoedd ysgol 10-13 (tîm)

Madagascar: Cynnydd v Cadwraeth
 (rheolau ar gael o Dŷ John Penri)

Enwau'r cystadleuwyr ar gyfer y siarad cyhoeddus i gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanrafon, Bro Abertawe, ABERTAWE SA7 0AJ 01792 795888
undeb@annibynwyr.cymru erbyn 15 Mai.